# Cludiant Cymunedol:
# Cyflawni lles i bobl Cymru

**cta**

Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Community Transport Association




Cewch wybod rhagor: Christine Boston, CTA's Director for Wales, via [christine@ctauk.org](mailto:christine@ctauk.org)

## Cefnogi Chwaraeon Anabledd




Mae Maxine yn byw mewn ardal wledig yn sir Gaerfyrddin. Mae ganddi wregys du 2il Dan mewn Jiwdo ac mae wedi'i chofrestru'n ddall. Cynrychiolodd Brydain Fawr yng Ngemau Paralympaidd 2004.

Yn 2016 doedd gan Maxine ddim cludiant er mwyn mynd i hyfforddi. Cysylltodd â Cheir Cefn Gwlad Sir Gaerfyrddin. Cynigion nhw yrrwr gwirfoddol a aeth â Maxine a Fisher, ei chi tywys, i'r hyfforddiant Jiwdo yn Rhydaman.

Diolch i'r cymorth hwn, roedd Maxine yn gallu dal ati i fynd i ddosbarthiadau Jiwdo ac mae wedi cystadlu ym Mhencampwriaethau Agored Cymru, y Pencampwriaethau Ewropeaidd a Phencampwriaethau'r Byd.

**Nod lles cynradd (1) a Chyfraniadau eilaidd (2)**




## Cefnogi Mynediad at yr Afordir


Sefydlwyd O Ddrws i Ddrws yn 2002 ar ôl i

ymchwil dynnu sylw at y ffaith fod cludiant yn broblem i boblogaeth penrhyn Llŷn. Ers hynny mae'r corff wedi gweithio i gynnig cludiant fforddiadwy ac i wella mynediad at wasanaethau yn yr ardal. Mae'r gwasanaethau'n mynd â phobl ddifreintiedig o'u cartrefi i wasanaethau hanfodol ac yna'n ôl adre.

Erbyn hyn mae'r corff yn rhedeg bws arfordirol ar drwydded Adran 22 sy'n rhoi mynediad at yr arfordir.



**Nod lles cynradd (1) a Chyfraniadau eilaidd (2)**




## Cefnogi iechyd da



Sefydlwyd Cludiant Gwasanaethau Brys Gwirfoddol (VEST) yn 1971 i gyflenwi cyflenwadau glo a phren i'r rhai a oedd yn methu gadael eu cartrefi pan oedd prinder tanwydd.

Heddiw, mae'r corff yn cynnig cludiant i drigolion Caerdydd a Bro Morgannwg sy'n methu defnyddio cludiant cyhoeddus arferol. Drwy ddefnyddio ein bysiau, mae cannoedd o bobl yn mwynhau teithiau lleol i siopa neu i hamddena neu i gwrdd â ffrindiau mewn canolfannau dydd. Hefyd mae grwpiau lleol yn gallu archebu bysiau i fynd â phobl ar deithiau pellach.

**Nod lles cynradd (1) a Chyfraniadau eilaidd (2)**

